

# Canllawiau ar gyfer drafftio cynlluniau o'r safle â mesuriadau mewn metrau sgwâr

Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg / This application form is also available in English

Er mwyn i AGC asesu'r nifer uchaf o blant y gellir ei ganiatáu mewn gwasanaeth yn gywir, rhaid i bob darparwr lanlwytho cynllun mewnol clir o'r safle. Dylai'r cynllun llawr ddangos pob ystafell ar y safle a dimensiynau pob ystafell y bwriedir ei chynnwys yn y cyfrifiadau o'r ardaloedd llawr clir y gellir eu defnyddio i chwarae. Nid oes angen i'r cynllun fod yn gynllun pensaernïol ffurfiol / wedi'i ddrafftio gan arbenigwr. Gellir creu cynllun syml mewn dogfen Word, neu gellir ei wneud â llaw. Rhaid i'r holl ddarluniau neu gynlluniau fod yn gywir a bydd angen i'r cynllun ddangos mesuriadau hyd a lled yr ystafelloedd mewn metrau. Caiff cyfanswm yr ardaloedd eu cyfrifo drwy luosi'r hyd â'r lled – gweler enghraifft o sut i gyfrifo hyn isod.

## Yn achos gwarchodwyr plant

Rhaid i'r ardal chwarae dan do ddarparu o leiaf y lle gwag canlynol i bob plentyn:

- dan 2 oed – 3.5 metr sgwâr.
- 2 i 7 oed – 2.5 metr sgwâr.
- 8 i 12 oed – 2.3 metr sgwâr.

Wrth gyfrifo'r gofynion o ran y lle gwag ar gyfer pob grŵp oedran, gellir defnyddio sawl ystafell ar y safle. Ni ddylid cynnwys y toiled / ystafell ymolchi nac unrhyw ystafell arall na fydd y plant yn ei defnyddio i chwarae ynddi wrth gyfrifo, er enghraifft, ystafelloedd a gaiff eu defnyddio'n bennaf i gysgu neu'r gegin os caiff ei defnyddio'n bennaf i goginio. Nid yw cynteddau, a gaiff eu hystyried yn ardaloedd trwodd, yn cael eu cynnwys fel rheol, ond os yw'r cyntedd yn ardal fawr ac yn addas i'w ddefnyddio fel ardal chwarae caiff hyn ei drafod yn ystod yr ymweliad â'r safle. Bydd yr arolygydd cofrestru hefyd yn trafod yr effaith a gaiff eitemau yr ystyrir eu bod yn ddodrefn mawr ar yr ardal chwarae sydd ar gael yn ystod yr ymweliad â'r safle.

## Gofal Dydd

Rhaid i'r ardal chwarae dan do mewn lleoliadau gofal dydd (gan gynnwys darpariaeth chwarae mynediad agored) ddarparu o leiaf y lle gwag canlynol i bob plentyn:

- dan 2 oed – 3.7 metr sgwâr.
- 2 oed – 2.8 metr sgwâr.
- 3 i 12 oed – 2.3 metr sgwâr.

Wrth gyfrifo'r gofynion o ran y lle gwag ar gyfer pob grŵp oedran, gellir defnyddio sawl ystafell ar y safle. Ni ddylid cynnwys y toiledau, yr ardaloedd storio, ardaloedd trwodd, ardaloedd staff dynodedig, ystafelloedd cotiau, ystafelloedd amlbwrpas na cheginiau wrth gyfrifo. Bydd yr arolygydd cofrestru yn trafod yr effaith a gaiff eitemau yr ystyrir eu bod yn ddodrefn mawr ar yr ardal chwarae sydd ar gael yn ystod yr ymweliad â'r safle.

Gweler isod am enghraifft o gynllun llawr.

<p>Cegin (a ddefnyddir i goginio yn unig – heb ei chynnwys)</p>	<p>Ystafell fyw (a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer chwarae ac ymlacio o bryd i'w gilydd – wedi'i chynnwys)</p> <p>3 metr</p>		
<p>Ystafell fwyta (a ddefnyddir i fwyta a chynnal gweithgareddau celf a chreffft/chwarae blêr – wedi'i chynnwys)</p> <p>3 metr</p> <p>4 metr</p>	<p>Toiled</p>	<p>Cyntedd</p>	<p>Ystafell wely (a ddefnyddir i gysgu yn unig – heb ei chynnwys)</p>

Drws:



Ystafell fwyta:  $3 \times 4 = 12$  metr sgwâr

Ystafell fyw:  $7 \times 3 = 21$  metr sgwâr

Cyfanswm yr ardal chwarae bosibl = 33 metr sgwâr

## Gwarchodwyr plant a Gofal dydd – gwasanaethau awyr agored nad ydynt wedi'u lleoli mewn adeilad

Er nad oes angen mesuriadau o'r ardaloedd chwarae awyr agored, dylid cynnwys cynllun syml o'r ardaloedd a'r ffiniau hyn.